# YMUNWCH Â NI NAWR

UCU
University and College Union
Undeb Prifysgol a Choleg Cymru

UCU RISING

# Mae UCU yn codi llais Ymunwch nawr i fod yn rhan ohono

**Rydyn ni'n gwybod bod eich biliau'n codi, eich bod yn gorweithio, ddim yn cael cyflog digonol nac yn cael eich gwerthfawrogi ddigon**. Rydych wedi gweithio drwy gydol y pandemig gan gynhyrchu'r incwm uchaf erioed ar gyfer y sector, a'r wobr i chi yw ymosod ar eich cyflog, amodau gwaith a'ch pensiwn.

**Y gwir yw, nid ydym oll yn hyn gyda'n gilydd.** Wrth i'n haelodau weld eu cyflogau' disgyn 25% ers 2009, mae is-gangellorion prifysgolion ac aelodau uwch o staff wedi bod yn casglu cyflogau chwe ffigwr.

Bydd aelodau UCU yn derbyn cerdyn pleidleisio'n fuan yn galw am weithredu diwydiannol er mwyn mynd i'r afael â'r dirywiad i'n cyflog, pensiynau ac amodau gwaith. Mae digon o amser i chi ymuno â'r undeb ac ymuno â'r frwydr.

UCU yw'r undeb ôl-ysgol mwyaf yn y byd. Mae ein haelodau yn cynnwys academyddion, darlithwyr, hyfforddwyr, ymchwilwyr, gweinyddwyr, rheolwyr, staff cyfrifiadurol, llyfrgellwyr, cynorthwywyr addysgu ôl-raddedig a gweithwyr proffesiynol eraill yn y sector addysg. **Mae'r undeb yn cynnwys gweithwyr eraill yn union fel chi ac mae'n bodoli i amddiffyn eich swydd, cyflog, amodau, a phensiynau.** Gall aelodaeth gostio cyn lleied â £1 y mis yn dibynnu ar eich enillion.

## RYDYM YN AMDDIFFYN CYFLOGAU A PHENSIYNAU

- Rydym yn cael ein cydnabod gan brifysgolion a cholegau ledled y DU i drafod eich cyflog.
- Rydym yn cynrychioli staff yn y Cynllun Pensiwn Athrawon (TPS) a'r Cynllun Pensiwn Prifysgolion (USS), ac yn brwydro yn erbyn newidiadau niweidiol i USS.

## RYDYM YN AMDDIFFYN SWYDDI

- Rydym wedi ymladd ac ennill pan mae cyflogwyr wedi ceisio cwtogi ar staff.
- Rydym wedi brwydro yn erbyn diswyddo ac ail benodi.

## RYDYM YN BRWYDRO YN ERBYN SWYDDI DROS DRO

- Rydym yn brwydro i sicrhau cyflogaeth deg i bawb.
- Rydym yn ymgyrchu i ennill parhad cyflogaeth a chontractau tecach i staff dros dro.

## RYDYM YN BRWYDRO AM GYDRADDOLDEB

- Rydym yn herio gwahaniaethu ac aflonyddu ac yn brwydro yn erbyn bylchau cyflog rhwng y rhywiau ac ethnigrwydd.

**Mynnwch ragor o wybodaeth ac ymunwch heddiw drwy fynd i www.ucu.org.uk/join**

UCU